# HELP LLAW I DREFNWYR

## Croeso mawr i blith brawdoliaeth y plygeinwyr!

### EGWYDDORION SYLFAENOL Y GWASANAETH PLYGAIN TRADDODIADOL

1. Mae'r gwasanaeth yn agored i bawb - ar yr amod fod pawb yn parchu'r drefn a'r arferion.
2. Mae pawb yn canu'n ddigyfeiliant.
3. Canu carolau traddodiadol yw diben y gwasanaeth - carolau na chânt eu clywed yn unlle arall.
4. Ar wahân i wasanaeth byr ar y dechrau, nid oes unrhyw siarad (na darlleniadau).
5. Yn y rownd gyntaf, caiff pawb sydd am gymryd rhan ddod ymlaen i ganu pryd bynnag y mae ef/hi/nhw yn dymuno, felly nid oes rhaglen yn cael ei phennu ymlaen llaw. Cenir un garol ar y tro. Yn yr ail (neu'r drydedd) rownd mae pawb yn canu yn yr un drefn â'r rownd gyntaf.
6. Mae'r gwasanaeth yn cloi gyda'r dynion yn canu 'Carol y Swper'.

**Mae'r rhestr lawn o arferion a chonfensiynau wedi eu gosod allan yn glir yn yr adran 'Beth ydi Plygain'?**

### CRYNODEB SYDYN -
y gwahaniaeth rhwng Plygain 'go iawn' a gwasanaethau eraill

| Y BLYGAIN DRADDODIADOL | | GWASANAETHAU ERAILL |
|---|---|---|
| Mae'r gwasanaeth yn agored i unrhyw un, heb fod angen gwahoddiad ymlaen llaw. | | Mae'r carolwyr wedi cael gwahoddiad ymlaen llaw ac wedi rhoi gwybod pa garolau fyddan nhw'n eu canu. |
| Nid oes 'rhaglen': nid oes trefn benodol yn cael ei thynnu allan ac nid yw'r carolwyr yn gwybod ymlaen llaw pryd y byddant yn canu. | | Mae trefn y perfformiadau yn cael ei dynnu allan ac mae'r perfformwyr yn cael gwybod pryd y disgwylir iddyn nhw ganu. |
| Pwrpas y gwasanaeth yw canu'r hen garolau traddodiadol | | Caiff pawb ganu pa bynnag garol a ddymunir |
| Ar wahan i wasanaeth byr ar y dechrau, nid oes neb yn 'arwain' y gwasanaeth; nid oes siarad na darlleniadau | | Mae'r gwasanaeth yn cynnwys darlleniadau a chyflwyno rhwng eitemau |
| Mae pawb yn canu'n ddigyfeiliant | | Caniateir cyfeiliant |

# CADW AT Y DREFN A’R ARFERION

Clywir sôn weithiau am “reolau” y Plygain. Ond ni fu erioed unrhyw bwyllgor canolog, na mudiad na chorff swyddogol sydd wedi mynd ati i greu rheolau a sicrhau fod pawb yn cadw atynt. Felly, mewn gwirionedd, does dim rheolau!

Nid yw hynny'n golygu y gall pawb wneud fel y mynno. Mae yna arferion a chonfensiynau sydd wedi datblygu dros gyfnod hir o amser: trefn sydd wedi ei derbyn gan bob un o’r Plygeiniau traddodiadol yn y Canolbarth, am y rheswm syml ei bod yn gweithio, ei bod yn llwyddiannus. Mae sêl bendith dawel dilynwyr a chyfranogwyr y traddodiad yn drech nag unrhyw ‘reolau’ ysgrifenedig, ac yn llawer mwy grymus yn y pen draw.

Wrth fynd ati i drefnu Plygain newydd yn eich ardal, felly, mae’n hanfodol eich bod yn ystyried yn ofalus y cwestiwn: Ai peth teg yw trefnu Plygain ond newid y drefn? Yn y blynyddoedd diweddaraf mae rhai trefnwyr wedi dewis gwahodd unigolion a phartïon penodol a llunio rhaglen ymlaen llaw. (Golyga hynny na all neb ddod ar y noson a tharfu ar y rhaglen osodedig).

Mae’n debyg y gellir cydymdeimlo â threfnwyr Plygeiniau newydd sbon yn hyn o beth: mae’r syniad o adael i bawb ddod ymlaen pryd bynnag y dymunant efallai yn codi braw. Does neb yn hollol siwr beth sy’n digwydd nesa!

Ond mewn gwirionedd, dyna un o’r elfennau mwyaf hyfryd am y Plygain traddodiadol: yr elfen fach o ansicrwydd disgwylgar! Mae pob gwasanaeth yn llifo fel y mae’r ysbryd yn ei arwain! Rhywbeth i’w groesawu yw hynny, nid rhywbeth i’w osgoi.

Mae egwyddor y ‘drws agored’ hefyd yn un hanfodol bwysig. Dyma sy’n gwneud y Plygain yn un o draddodiadau mwyaf democrataidd y byd! Dywedir yn aml mewn eisteddfod mai “cymryd rhan sy’n bwysig” – ond fe ŵyr pawb mai pwrpas cystadlu yw ennill! Does dim o hynny yn cyfrif mewn Plygain, ac mewn diwylliant sy’n rhoi cymaint o bwys ar gystadlu, mae hynny’n awyr iach.

Datblygodd y gair Plygain ryw gyffro, rhyw apêl arbennig yn y cyfnod diweddar, ac efallai y gellir deall awydd rhai i fanteisio ar hynny a defnyddio’r teitl ‘Plygain’ i ddenu cynulleidfa. Tybed a yw hynny’n deg os nad Plygain ‘go iawn’ sy’n cael ei threfnu?

Felly:

**Yn y pen draw, mater syml yw hyn o ddangos parch i’r cenedlaethau o garolwyr a gadwodd y traddodiad arbennig hwn yn fyw am gyfnod mor hir.**

**Yn Sir Drefaldwyn a’i chyffiniau yn arbennig, datblygodd rhwydwaith o wasanaethau yn cefnogi ei gilydd, a datblygodd ffurf hollol unigryw ar y gwasanaeth plygain a brofodd yn hynod o lwyddiannus dros gyfnod maith. Onibai am hynny ni fyddai’r gair Plygain wedi goroesi o gwbl fel traddodiad byw, dim ond mewn llyfrau hanes.**

**Y peth lleiaf y gall ardaloedd eraill sy’n ceisio sefydlu’r traddodiad o’r newydd ei wneud yw parchu hynny, a chydnabod eu dyled i’r bobl a wnaeth y Plygain yn un o draddodiadau gwerin mwyaf hirhoedlog gwledydd Prydain.**

## TREFNU YMLAEN LLAW

Nid oes dim o'i le ar gysylltu ymlaen llaw gyda charolwyr, yn unigolion neu bartïon, i estyn gwahoddiad i'r gwasanaeth. Yn wir, mae amryw o drefnwyr Plygeiniau hanesyddol y Canolbarth yn gwneud hynny yn gyson. (Roedd un trefnydd Plygain yn Nwyrain Maldwyn yn enwog am gychwyn y gwaith canfasio yn yr Eisteddfod Genedlaethol!).

Os yn cychwyn Plygain o'r newydd, dylid pwysleisio wrth bawb nad oes rhaglen osodedig, a bod rhyddid ganddynt i godi i ganu pryd bynnag y maent yn dymuno (yn y rownd gyntaf o leiaf).

## PROBLEM Y CURO DWYLO

Gwasanaeth yw'r Plygain, nid cyngerdd, a rhaid parchu hynny.

Mewn ambell i Blygain mae parti o blant yn cymryd rhan. Yr arfer bob amser yw eu bod nhw yn cael canu gyntaf. Os oes parti o'r eglwys/capel ei hun, dylai'r parti hwnnw ganu ar y dechrau hefyd.

Fe all problem godi os oes plant yn canu, am y rheswm fod pobl am guro dwylo i'w cefnogi. Clywyd am ambell i Blygain ddiweddar lle digwyddodd hynny, a'r gynulleidfa wedyn yn teimlo y dylent guro dwylo i bawb oedd yn dilyn, gan droi'r Blygain yn gyngerdd mewn amrantiad.

Dim ond un ateb sydd i hynny - fod y gweinidog neu'r ficer yn esbonio i bawb ar y dechrau i beidio curo dwylo. Er tegwch â'r plant, gellid caniatau curo dwylo iddyn nhw, ond yn sicr nid yng ngweddill y gwasanaeth.

## PENNU DYDDIAD

Mae tymor y gwasanaethau Plygain erbyn hyn yn ymestyn o ddechrau Rhagfyr hyd at ddiwedd Ionawr, felly mae unrhyw ddyddiad yn y ddau fis hwnnw yn addas. Nosweithiau Sul yw'r mwyaf poblogaidd, ond ceir amryw ar ddyddiau'r wythnos hefyd (heblaw nos Sadwrn).

Ar wefan plygain.org fe welwch restrau tymor 2023/24 a hefyd 2022/23 ac felly mae modd gweld beth yw'r patrwm.

Yn y cyfnod diweddaraf mae Sul cyntaf ac ail Sul y flwyddyn newydd wedi tyfu yn ddyddiadau poblogaidd iawn, felly byddai'n ddoeth osgoi'r dyddiadau hynny os ydych yn cychwyn Plygain o'r newydd.

Cofiwch fod y gwasanaethau plygain hanesyddol yn y canolbarth yn cadw at ddyddiad penodol bob amser (e.e. Llansilin ar nos Wener gyntaf Rhagfyr, Llanfyllin ar nos Sul gyntaf Rhagfyr, Llanerfyl ar Sul cyntaf Ionawr, Llanfihangel ar ail Sul Ionawr, Mallwyd ar yr ail nos Wener yn Ionawr, ac yn y blaen). Felly mae modd dyfalu dyddiadau'r Plygeiniau uchod yn Rhagfyr 2024/Ionawr 2025 (sef Llansilin Rhagfyr 6, Llanfyllin Rhagfyr 1, Llanerfyl Ionawr 5, Llanfihangel Ionawr 12 a Mallwyd Ionawr 10).

Yn y pen draw, dim ond chi fel trefnwyr sy'n medru pennu dyddiad sy'n addas i'ch ardal chi. Os oes Plygeiniau eraill filltiroedd lawer i ffwrdd ar yr un noson, ni ddylai hynny fod yn broblem. Ond synnwyr cyffredin yw ceisio osgoi gwrthdaro gyda Phlygeiniau mewn ardaloedd lle y byddech yn gobeithio denu carolwyr ohonynt.

## CAROL Y SWPER

Yr arfer ers tua canrif bellach yw fod y dynion yn cael eu galw ymlaen ar ddiwedd y gwasanaeth i ganu Carol y Swper - tri phennill o gerdd (deg pennill) Richard Owen, Ael Haearn Hir (1773-1860).

Yn nyddiau cydraddoldeb, mae rhai wedi cwestiynu'r arfer 'dynion yn unig' - er y dylid nodi nad yw'r cwestiwn yn codi o gwbl yn y Plygeiniau hynny yn y Canolbarth a fu'n mynd ers cenedlaethau. Mae sŵn grymus y lleisiau meibion bellach yn rhan annatod o'r garol arbennig hon.

Clywir weithiau frawddegau fel "mae'n rhaid i draddodiad newid er mwyn goroesi" ac "mae'n rhaid symud ymlaen". Ailadroddir y brawddegau hyn braidd yn ddifeddwl (fel arfer gan bobl heb brofiad o weithio i warchod unrhyw draddodiad), nes datblygu'n wirionedd mawr nad oes modd ei gwestiynu.

Rhan fawr o apêl y Plygain yw ei fod yn gymharol ddigyfnewid - fel neges y Nadolig ei hun! Byddai ei "newid" a'i "symud ymlaen" yn ergyd farwol iddo - yn hollol groes i'r syniad fod yn rhaid iddo newid er mwyn goroesi.

Yn y llyfr 'Seiniwn Hosanna' fe wnaed awgrym: beth am garol i'r merched? Fe gyfansoddwyd carol newydd sbon, ond yn yr arddull draddodiadol, ar gyfer lleisiau SSA: *Carol Mair a Hanna*. Dim ond awgrym oedd hyn; nid oes unrhyw bwyllgor canolog yn gallu 'gosod y ddeddf i lawr', ac felly dim ond y carolwyr eu hunain fedr dderbyn neu wrthod yr awgrym. Ond i'r rhai sy'n teimlo fod yna 'annhegwch' - mae hyn yn cynnig un ateb.

*[Gallai'r garol gael ei chanu efallai ar ddiwedd y rownd gyntaf, neu ar y diwedd, yn union o flaen 'Carol y Swper'. Unwaith eto, dim ond awgrym.]*

## GWNEUD FEL Y MYNNOM? NEU BETH?

Gofynnwch y cwestiwn: A yw'n werth gwarchod yr hyn sy'n gwneud y Plygain yn unigryw?

I rai, efallai fod yr holl elfennau a ddisgrifiwyd yma - trefn ac arferion y gwasanaeth, y math o garolau a genir, a'r dull o'u canu - yn ddibwys ac amherthnasol mewn oes lle nad oes unrhyw ffiniau a lle caniateir popeth - *anything goes*!

Y broblem yw hyn: unwaith yr ydych yn dechrau newid pethau, am ba reswm bynnag, beth yw pen draw hynny? Gogoniant y Plygain yw ei fod yn wahanol, yn unigryw. Mae'n bwysig nodi hefyd ei fod yn <u>llwyddiannus</u> (beth tybed sydd i gyfrif am y twf yn ei boblogrwydd?).

Y gwir yw hyn: unwaith y bydd y ffin rhwng gwasanaeth Plygain ac unrhyw wasanaeth carolau arall yn diflannu, dyna fydd diwedd y traddodiad.

Nid oes gan neb hawlfraint na '*patent*' ar y gair Plygain. Ond y mae yna drefn, set o arferion a ffordd o wneud pethau sy'n ei ddiffinio. Yr un fu neges y Nadolig erioed. Mae natur ddigyfnewid traddodiad y Plygain yn gweddu'n berffaith i natur ddigyfnewid y neges honno.